# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Peter May | Adran Etholiadol: | Uplands |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Rwyf wedi mynd i gyfarfodydd PACT cyhoeddus rheolaidd a gynhaliwyd yn Neuadd Eglwys St James a Chanolfan Gymunedol Brynmill gyda chydarweinwyr cymunedol megis swyddogion heddlu. Rwyf wedi hwyluso'r gorchmynion traffig ffordd canlynol ar ôl ymgynghori â'r etholwyr:

a. Llinellau melyn dwbl ar gorneli Parc Glanmôr i wella golwg wrth ddod i Heol Sgeti.
b. Ailgyflunio'r cilfannau bws y tu allan i YGG Bryn-y-môr i alluogi parcio y tu allan i oriau ysgol a rhoi parth gollwng 10 munud i rieni hefyd.
c. Estyn y llinellau igam ogam ar groesfan sebra Heol Sgeti i leihau tebygolrwydd damweiniau gan geir sy'n dod o Rodfa Hawthorne oherwydd golwg cyfyngedig.
ch. Llinellau melyn dwbl ar gorneli Lôn Bryngwyn, Lôn Cwmgwyn a Lôn Cadog i wella golwg wrth ddod i Heol Townhill.
d. Llinell felen i atal rhwystrau ar y lôn sy'n mynd rhwng Heol Caergaint a Brecon Place.

Yn yr haf, trefnais gynllun i ddarparu basgedi crog yn ardal Brynmill.
Cysylltodd etholwyr â fi dros y ffôn a thrwy e-bost a llythyr. Hefyd, cwrddasant â mi yn fy nghartref neu yn eu cartrefi nhw os oeddent am wneud hyn i gael cyswllt wyneb yn wyneb.

Hwylusais safle bws wedi'i farcio'n iawn yn Heol Marlborough.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Cyngor | 16 | / | 18 | 89 | % |
| **CYFFREDINOL** | **16** | **/** | **18** | 89 | **%** |

Dangosir uchod % presenoldeb sy'n seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Eleni, rwyf wedi cwblhau fy 12fed flwyddyn fel llywodraethwr AALl yn Ysgol Gynradd Brynmill ac YGG Bryn-y-môr.

## Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig

Ar ran f'etholwyr, rwyf wedi lobïo, ymgyrchu a chyflawni ar y materion canlynol:

Cadw'r coed yng ngerddi safle Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant gyda gorchmynion cadw coed.
Gwella diogelwch y Rec i rwystro gwersylla anawdurdodedig.
Gwrthwynebu nifer o geisiadau gan y cyngor i adeiladu cartrefi ar y Ganges.
Derbyniwyd deddfwriaeth ym mis Chwefror i dynhau'r rheolau cynllunio pan grëir Tai Amlfeddiannaeth.
Gwrthwynebu cynigion gan y cyngor i godi tâl ar gyfer trwyddedau parcio preswylwyr.
Ymgynghorais ag etholwyr ac ysgrifennu sylwadau wedi'u coladu ar gyfer safleoedd yr CDLl, sef Llwyn-y-Bryn a Phrifysgol Cymru.

## Adran 5: Dysgu a datblygu

*Mae'r adran hon yn cynnwys yr wybodaeth neu'r sgiliau arbennig rydych yn eu cyfrannu i'ch rôl fel cynghorydd. Er enghraifft, efallai'ch bod yn gynlluniwr arbenigol neu efallai bod gennych brofiad penodol o un agwedd ar weithgareddau'r cyngor. Nodwch a oes unrhyw beth arbennig rydych yn ei gyfrannu i'r rôl neu a oes unrhyw hyfforddiant arbennig rydych wedi'i gael sy'n eich helpu yn eich rôl.*

## Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill

Fel gwirfoddolwr yn y gymuned, ymgymerais â'r canlynol hefyd:
Cadeirio grŵp Cyfeillion Parc Brynmill Tom Morgan. Eleni, darparasom dri digwyddiad am ddim i'r gymuned: Diwrnod hwyl ym mis Medi, cyngerdd carolau Nadolig ym mis Rhagfyr a helfa wyau Pasg ym mis Mawrth.
Ysgrifennydd Canolfan Gymunedol Brynmill mewn blwyddyn pan fo'r ganolfan wedi cael gwaith ailwampio a moderneiddio helaeth.

## Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Nid wyf wedi hawlio costau teithio a chynhaliaeth.

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 09.04.2016 |